# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2013** |
| Amser: | **09:00 – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_12_11_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Helen Birtwhistle, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru**<br><br>**Kevin Flynn, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Grant Robinson, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan**<br><br>**David Sissling, Director General for Health and Social Services, Llywodraeth Cymru**<br>**Allison Williams, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)** |

Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt: Tystiolaeth gan Gonffederasiwn GIG Cymru

2.1 Holodd y Pwyllgor Helen Birtwhistle, Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru, ac Allison Williams, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Cwm Taf, ynghylch y Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt.

Camau gweithredu:

Cytunodd Allison Williams i anfon nodyn ar sefyllfa ariannol Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn seithfed mis y flwyddyn ariannol hon.

Cytunodd Allison Williams i anfon nodyn ar gyfanswm y cyffuriau a gafodd eu gwastraffu gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf ym mlwyddyn ariannol 2012-13.

## 3 Gofal heb ei drefnu: Ymateb gan Lywodraeth Cymru

3.1 Holodd y Pwyllgor David Sissling, y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Kevin Flynn, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, a Dr Grant Robinson, yr Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal heb ei drefnu, Llywodraeth Cymru, ynghylch Gofal heb ei drefnu.

Camau gweithredu:

Cytunodd Mr Sissling i anfon nodyn yn cwmpasu'r pum maes blaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt wrth ddatblygu'r rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu, enghreifftiau o fentrau i helpu cleifion bregus ac oedrannus a sut y caiff y rhain eu hyrwyddo'n lleol ac yn genedlaethol.

Cytunodd Mr Sissling i anfon nodyn ar gost Dewis Doeth a gwerthusiad o'r cynllun ar gyfer y dyfodol, a'r nifer gwirioneddol o bobl sy'n defnyddio Galw Iechyd Cymru.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nodwyd y papurau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(GOHIRIO BUSNES)

Gan fod y sesiynau blaenorol wedi gor-redeg, cafodd gweddill y busnes ei ohirio ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

## 6 Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt: Trafod y dystiolaeth

## 7 Gofal heb ei drefnu: Trafod y dystiolaeth

## 8 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Trafod yr adroddiad drafft